# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Powys

## Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2023

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.** | Mawrth 2023 | Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|---|
| **Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2022-23 y Cyngor** | Cadarnhau a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg. | Tachwedd 2023 | | Cwblhawyd |
| **Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2022-23 y Gronfa Bensiwn** | Cadarnhau a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg. | Tachwedd 2023 | | Cwblhawyd |

| Disgrifiad | | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Grantiau a Ffurflenni 2022-23 y Cyngor** | Ardystiad o'r grantiau a'r ffurflenni fel sy'n ofynnol gan delerau ac amodau’r grant. | Gwaith archwilio i'w gyflawni rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024. | | |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu’n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro’r sefyllfa ariannol yn barhaus | Mynd rhagddo |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | • Rheoli'r rhaglen gyfalaf | Medi – Rhagfyr 2023 | Ni fydd Archwilio Cymru yn gwneud gwaith manwl ym mhob cyngor fel rhan o'n rhaglen waith 2022-23 Rydym wrthi'n archwilio ein hopsiynau ar gyfer gwneud darn o waith manwl ar y pwnc hwn naill ai yn 2023-24 neu yn y blynyddoedd i ddod. |
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformio – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau | Chwefror – Medi 2023 | Wrthi'n cwblhau'r adroddiad |
| | • Gosod amcanion llesiant | Cwblhawyd | Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2023 |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion yn allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. | Awst 2022 – Hydref 2023 | Adrodd o fis Chwefror 2024 ymlaen. |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull gweithredu strategol cynghorau o ran digidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Medi. | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2023 |
| **Gwaith Craffu Dilynol** | Adolygiad Cynnydd. Bydd y prosiect hwn yn archwilio a yw'r argymhellion o'n Gwaith Craffu Dilynol blaenorol wedi'u gweithredu. | I'w gadarnhau | Cyfeiriwch at Adolygiad Llywodraethiant Corfforaethol 2023-24 isod |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mynd rhagddo | Ar y gweill |
| **Adolygiad thematig – comisiynu** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ionawr – Gorffennaf 2024 | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Mawrth – Mehefin 2024 | Cwmpasu |
| **Adolygiad Llywodraethiant Corfforaethol** | Adolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor. Nid yw'r cwmpas llawn wedi'i gadarnhau eto, ond byddwn yn ceisio integreiddio ein hadolygiad Gwaith craffu dilynol arfaethedig (fel y nodir yn ein cynllun archwilio 2022-23) â'r Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol. | Trafodir amserlenni ar gyfer prosiectau unigol â chi a manylir arnynt yn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob archwiliad. | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Powys |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd** | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo a galluogi defnyddio anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd yn well. | Hydref 2022 – Medi 2023 | Cwblhawyd | Cyhoeddwyd yr adroddiad Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag |
| **Llywodraethiant awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Drafftio adroddiadau – disgwylir cyhoeddi Chwefror 2024. | Na |
| **Llywodraethu mewn Awdurdodau Tân ac Achub** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Medi 2023 – Awst 2024 | Gwaith maes yn mynd rhagddo | Na |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Powys |
|---|---|---|---|---|
| **Digartrefedd** | Archwilio sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd. | I'w gadarnhau | Cwmpasu | I'w gadarnhau |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Gwnaethom arolygu gwasanaeth addysg llywodraeth leol Conwy yn yr wythnos yn dechrau 6 Tachwedd 2023, a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddechrau Ionawr 2024. Byddwn yn treialu ein trefniadau arolygu newydd ym Mro Morgannwg yn yr wythnos yn dechrau 11 Mawrth 2024. Byddwn hefyd yn arolygu gwasanaethau gwaith ieuenctid Bro Morgannwg yn yr wythnos yn dechrau 19 Chwefror 2024, a bydd canfyddiadau'r arolygiad hwnnw'n cyfrannu at y sail dystiolaeth ar gyfer arolygiad LGES.

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn amlinellu dulliau awdurdodau lleol ac ysgolion uwchradd o ran hybu presenoldeb.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau thematig**<br><br>**Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT)** | Gan weithio gydag AGIC, byddwn yn cwblhau sampl bach o arolygiadau CLDT ar y cyd yn 2024. Byddwn yn defnyddio'r dull hwn i werthuso ac ystyried ein dull o arolygu ar y cyd. | 2024-25 | Cynllunio |
| **Llwybr Strôc** | Gan weithio ar y cyd ag AGIC, cyhoeddwyd Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion: taith drwy'r llwybr strôc (agic.org.uk) yn ddiweddar. | Cwblhawyd | Wedi'i gyhoeddi |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br>Rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn cysylltiad â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.<br>I ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' a chyhoeddi adroddiad gweithgor amlinelliad cyfraith gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllawiau arferion gorau. | Yn aros am gael ei gyhoeddi | Cyhoeddwyd yr adroddiad<br>Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yng Nghymru |
| **Adolygiad Cyflym Amddiffyn Plant** | Edrychodd yr adolygiad i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod enwau plant yn cael eu gosod yn briodol ar y gofrestr amddiffyn plant (CPR) a'u tynnu oddi arni pan fo tystiolaeth ddigonol yn dangos ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny.<br><br>Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant, Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant – canfyddiadau interim, Arolygiaeth Gofal Cymru | Cyhoeddwyd | Wedi'i gyhoeddi |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23** | Cyhoeddwyd adroddiad 2020-21 ar 7 Chwefror 2021<br><br>Mae adroddiad 2021-2022 ar y gweill | Wedi'i gyhoeddi<br><br>I'w gadarnhau | Wedi'i gyhoeddi<br><br>Yn cael ei baratoi |
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Byddwn yn cwblhau dau arolygiad aml-asiantaeth arall ar y cyd.<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Sir Ddinbych wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Mae canfyddiadau Cyngor Sir Powys ar y gweill<br><br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ddiwedd gwanwyn 2024. | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Cyflawni |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol** | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | Mynd rhagddo | Mynd rhagddo |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Rhagfyr 2022

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad** |
|---|---|
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd | Tachwedd 2023 |
| Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru | Tachwedd 2023 |
| Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech | Tachwedd 2023 |
| Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau | Hydref 2023 |
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: dilyniant (llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Hydref 2023 |
| Gweithlu'r GIG – briff ar ddata | Medi 2023 |
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Medi 2023 |
| Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU | Medi 2023 |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol) | Medi 2023 |
| Diweddariad offeryn data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol (yn dilyn diweddariad arfaethedig yn Ionawr 2024) | Medi 2023 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2023 | Medi 2023 |
| Adroddiadau er budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres | Medi 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Awst 2023 |
| 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru | Awst 2023 |
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |
| Cynhwysiant Digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus) | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd | Chwefror 2023 |
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone | Ionawr 2023 |
| Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau | Ionawr 2023 |
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| 'Cyfle Wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith sy'n mynd rhagddo / wedi'i gynllunio)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Gwasanaethau ffoaduriaid o Wcráin | Chwefror 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – adolygiad dilynol o effeithiolrwydd y bwrdd | Chwefror 2024 |
| A465 Adran 2 – diweddariad | Chwefror 2024 |
| Llywodraethu ansawdd y GIG | Mawrth 2024 |
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Mawrth 2024 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a phersbectif defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Mawrth 2024 |
| Tai fforddiadwy | Gwanwyn 2024 |
| Teithio llesol | Gwanwyn 2024 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol i'r gwaith ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Pwyllgorau Archwilio. ‘Sut beth yw da?’. Gwaith ymchwil a datblygu i ddeall y dirwedd pwyllgorau archwilio eang ar draws pob sector yng Nghymru. Allbynnau i gefnogi digwyddiadau Cyfnewid Arferion Da a gwaith archwilio posibl yn y dyfodol. | Gwaith Ymchwil a Datblygu Medi – Rhagfyr 2023<br>Digwyddiad Arferion Da Gwanwyn 2024 |
| Cynllunio Gweithlu’r GIG (negeseuon cenedlaethol) | Diwedd gwanwyn 2024 |
| Gwasanaethau canser | Diwedd haf 2024 |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | I’w gadarnhau (cwmpasu ar ddechrau 2024) |
| Heriau i'r sector diwylliannol | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i’r afael â rhestrau aros y GIG (gwaith archwilio lleol mewn byrddau iechyd) | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | Gwaith ymchwil a datblygu yn mynd rhagddo o fis Medi i fis Rhagfyr 2023. Casglu data gyda grwpiau cynrychioliadol. Bydd allbynnau yn llywio unrhyw waith archwilio pellach.<br>Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus – Hydref 2024 |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Canolfan Ganser Felindre | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Buddsoddi cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I'w gadarnhau (cwmpasu) |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| Y Gyfnewidfa Arfer Da – Ein crynodeb o'r flwyddyn **o ddigwyddiadau ac adnoddau** | Rhagfyr 2023 |
| **Gonestrwydd yn y sector cyhoeddus** 'Caiff ymddiriedaeth ei meithrin a'i chynnal drwy gymhwysedd, dibynadwyedd a gonestrwydd, yn ogystal â meithrin perthnasoedd dilys a chadarn rhwng y sector cyhoeddus a'r cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r sector cyhoeddus fod yn atebol am reoli a darparu gwasanaethau a chanlyniadau cyhoeddus, am gyfeiriad a rheolaeth y gwaith y mae'n ei wneud, yr adnoddau y mae'n eu rheoli, ac am ei ymddygiad a'i foeseg.' Bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus hyrwyddo diwylliant o uniondeb. | 5 Rhagfyr 2023 10:00 – 12:00 Ar-lein |
| **Gweithio mewn partneriaeth i wella llesiant** Bydd y digwyddiad hwn yn dod â Phartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chymuned C4C at ei gilydd i rannu cynlluniau llesiant ar draws ardal Gogledd Cymru, yn ogystal â rhannu'r gwaith arloesol sydd yn cael ei wneud gan sawl sector ym maes llesiant yn ein cymunedau. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfleoedd i drafod sut y gellir cysylltu'r gwaith hwn gyda'i gilydd i gyflawni newid gwirioneddol. | 24 Hydref 2023 09:30 – 16:30<br><br>Dyddiau Caerdydd i'w gadarnhau |

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **O'r Strategaeth i Fodolaeth Sut mae'r digidol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau bob dydd** Bydd y digwyddiad hwn yn cymryd golwg ymarferol a gonest ar y dirwedd ddigidol yng Nghymru, a bydd yn cynnig syniadau ymarferol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector a fydd yn eu helpu i gael y gwerth gorau am arian. | 27 Medi 2023 09:00 – 13:00 – Gogledd Cymru<br><br>5 Hydref 2023 09:00 – 13:00 – Caerdydd |
| **Podlediad: Archwilio Cydnerthedd Cymunedol** Yn rhifyn hwn o'r Gyfnewidfa mae ein tîm Llywodraeth Leol yn trafod rhai o'r ffactorau sy'n achosi tlodi yng Nghymru, yn ogystal â'r gwerth a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, a phwysigrwydd cadw cyfoeth mewn cymunedau. | I wrando |